Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru
Older People's Commissioner for Wales

Ymddygiad sy'n Rheoli neu'n Gorfodi – Canllawiau Statudol

Mehefin 2022

Rôl Comisiynydd Pobl Hŷn annibynnol Cymru yw amddiffyn a hyrwyddo hawliau pobl hŷn yng Nghymru. Mae'r Comisiynydd yn craffu'n rheolaidd ar y polisïau ac arferion a all effeithio ar hawliau pobl hŷn.

Mae rhoi terfyn ar gam-drin pobl hŷn yng Nghymru yn flaenoriaeth allweddol i'r Comisiynydd. Mae pryderon wedi bod ynghylch cynnydd posibl yn y lefelau o gam-drin y mae pobl hŷn yn ei ddioddef, drwy gydol pandemig covid-19. Yn ystod y cyfnod hwn, roedd llawer o bobl hŷn wedi'u hynysu oddi wrth eu teulu a'u ffrindiau, ac roedd rhai hefyd wedi gweld gostyngiadau yn eu gwasanaethau ffurfiol. Credir bod colli'r rhwydweithiau cymorth hyn wedi cynyddu nifer yr achosion o gam-drin y mae pobl hŷn yn ei ddioddef.[1]

Mae ymddygiad sy'n rheoli ac yn gorfodi yn aml yn nodwedd o'r cam-drin mae pobl hŷn yn ei ddioddef. Felly, mae'r Comisiynydd yn croesawu'r cyfle hwn i ymateb i'r ymgynghoriad ar y 'Canllawiau Statudol ar Ymddygiad Gorfodol'.

Sylwadau ar Adrannau 1 a 2 – Pwrpas y Canllawiau ac Ymatebion Cyfiawnder Troseddol

Mae ymddygiad sy'n rheoli ac yn gorfodi yn fath o gam-drin sy'n aml yn cael effaith ddinistriol. Mae'n aml yn bresennol mewn sefyllfaoedd lle ceir mathau eraill o gam-drin hefyd [2]. Yn arwyddocaol, mae ymchwil yn dweud wrthym fod ymddygiad sy'n rheoli ac yn gorfodi yn ffactor risg sylweddol ar gyfer mathau eraill o niwed difrifol.[3]. Ychydig iawn o ymchwil sydd wedi bod ar brofiadau pobl hŷn, sy'n dioddef o ymddygiad sy'n rheoli ac yn gorfodi. Mae'r hyn sydd ar gael yn awgrymu bod y rhai dros 60 oed sydd wedi dioddef

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:
Andrea Cooper: Arweinydd Diogelu

03442 640 670 // andrea.cooper@olderpeople.wales

rheolaeth drwy orfodaeth gan bartner personol agos 8.5 gwaith yn fwy tebygol o ddioddef camdriniaeth corfforol hefyd [4]. Yn arwyddocaol, ymddygiad sy'n rheoli ac yn gorfodi yw'r cymhelliad mwyaf cyffredin i ddynladdiad domestig [5].

Er gwaethaf ei ddifrifoldeb, mae ymddygiad sy'n rheoli ac yn gorfodi yn aml yn cael ei anwybyddu gan yr heddlu ac asiantaethau eraill [6]. Dadleuir y gellir methu digwyddiadau o ymddygiad sy'n rheoli ac yn gorfodi yn aml, oherwydd ei natur llechwraidd weithiau, ac oherwydd bod ymatebion asiantaethau, yn enwedig rhai'r system cyfiawnder troseddol, wedi'u cynllunio i ganolbwyntio ar ddigwyddiadau ar wahân.

Felly, mae'n braf gweld bod y canllawiau'n defnyddio dull mor ymarferol o godi ymwybyddiaeth o ymddygiad sy'n rheoli ac yn gorfodi, a'u bod yn rhoi canllawiau i ymarferwyr ar y mathau o gwestiynau i'w gofyn (a'r 'dystiolaeth' i'w chasglu), wrth dynnu sylw at ddigwyddiadau o ymddygiad sy'n rheoli ac yn gorfodi. Mae'n gadarnhaol bod y canllawiau'n ceisio symud asiantaethau oddi wrth ymchwilio i ddigwyddiadau ar wahân, sy'n methu rhoi darlun cyflawn o'r risgiau y gallai unigolyn eu hwynebu. Mae dealltwriaeth fwy cyfannol, seiliedig ar berthynas o amgylchiadau a phrofiadau 'dioddefwr' yn hanfodol i sicrhau camau gweithredu priodol ac i roi cymorth effeithiol.

Mae'r llenyddiaeth yn aml yn tynnu sylw at y gwahaniaeth o ran rhyw mewn ymddygiad sy'n rheoli ac yn gorfodi [7] (gyda menywod yn brif ddioddefwyr ymddygiad sy'n gorfodi ac yn rheoli). Fodd bynnag, mae rhai pobl wedi dadlau bod y patrwm hwn yn cael ei wrthdroi wrth edrych ar ba mor gyffredin yw ymddygiad sy'n rheoli ac yn gorfodi ymysg pobl hŷn. Yma, awgrymir bod dynion hŷn (yn hytrach na menywod hŷn) mewn perygl amlwg o gael eu cam-drin fel hyn [8]. Yn ddiweddar, mae'r Comisiynydd wedi comisiynu ymchwil i gam-drin domestig dynion hŷn. [9]. Canfu'r ymchwil fod llawer o'r dynion hŷn a gymerodd ran yn yr astudiaeth yn agored i ymddygiad sy'n rheoli ac yn gorfodi fel un o'u profiadau o gam-drin. Am y rheswm hwn, mae'n hollbwysig bod ymarferwyr yn osgoi gwneud rhagdybiaethau ynghylch safbwyntiau'r 'cyflawnwr' a'r 'dioddefwr' wrth weithio mewn sefyllfaoedd o ymddygiad sy'n rheoli ac yn gorfodi.

Sylwadau ar Gwestiwn 3

Mae'r Comisiynydd yn falch iawn bod y canllawiau'n cydnabod yn benodol y gall pobl hŷn ddioddef ymddygiad sy'n gorfodi ac yn rheoli. Mae'r canllawiau'n nodi'n gwbl briodol bod cam-drin pobl hŷn wedi cael ei esgeuluso'n rhy aml o lawer oherwydd agweddau a thybiaethau sy'n gwahaniaethu ar sail oedran. Nid oes digon o gydnabyddiaeth o gwbl o'r cam-drin sy'n effeithio ar bobl hŷn ac mae'n rhy hawdd o lawer i'r gweithwyr proffesiynol hynny sy'n gweithio gyda phobl hŷn wneud tybiaethau anghywir ynghylch achosion posibl anafiadau corfforol (dweud bod anafiadau o'r fath wedi digwydd yn sgil codwm, er enghraifft). Mae ymchwil sy'n bodoli eisoes yn canolbwyntio'n bennaf ar brofiadau pobl iau,

sydd mewn perygl o wynebu ymddygiad sy'n rheoli ac yn gorfodi. Mae'r astudiaethau cyfyngedig sydd ar gael yn awgrymu y gallai pobl hŷn fod mewn perygl penodol o gael eu gorfodi a'u rheoli. Gall fod newidiadau yn natur y cam-drin sy'n cael ei gyflawni a'i ddioddef wrth i gyplau fynd yn hŷn; gyda cham-drin seicolegol ac ymddygiad sy'n rheoli ac yn gorfodi yn dod yn brif fath o gam-drin mae pobl hŷn yn ei ddioddef. [10] Fel y nodir yn y canllawiau, efallai y bydd rhai pobl hŷn hefyd yn ei chael hi'n anodd datgelu cam-drin o'r fath; yn enwedig os ydynt wedi byw gyda chamdriniaeth am amser hir neu os ydyn nhw, er enghraifft, yn ddibynnol ar bartner ar gyfer gofal. [11] Gallai salwch fel dementia, ei gwneud hi'n hawdd 'cuddio' ymddygiad sy'n rheoli ac yn gorfodi; gyda'r cyflawnwr yn honni eu bod yn gweithredu er 'budd gorau' person hŷn. Am y rheswm hwn, mae'n bwysig bod y canllawiau'n nodi'n glir bod angen i'r 'rhai sy'n gwneud penderfyniadau' ddarparu tystiolaeth i gyfreithloni penderfyniadau a wneir er budd pobl eraill. Er mwyn adnabod ymddygiad sy'n gorfodi ac yn rheoli, dylai ymarferwyr fod yn gyfarwydd â chanllawiau statudol perthnasol eraill (er enghraifft, Deddf Diwygio Gallu Meddyliol 2019, sy'n cyflwyno canllawiau ar wneud penderfyniadau er lles pennaf).

Mae gwneud rheolaeth drwy orfodaeth yn drosedd yn gam pwysig ymlaen o ran sicrhau hawl pobl hŷn i gael mynediad at gyfiawnder troseddol. Mae'r Comisiynydd wedi codi pryderon blaenorol am ddiffyg mynediad pobl hŷn at gyfiawnder troseddol ac mae wedi tynnu sylw at y ffyrdd nad yw'r rheini sy'n cam-drin pobl hŷn yn cael eu dal i gyfrif yn aml iawn. Bu tuedd ers tro byd i feddwl am gam-drin pobl hŷn fel 'cam-drin yr henoed'. Mae'r term 'cam-drin yr henoed' yn arwain at broblem ymddangosiadol o ran heneiddio ac mae'n awgrymu bod cam-drin pobl hŷn rywsut yn gysylltiedig â'r straen o ofalu a rhoi sylw i anghenion person hŷn. Mae ystyried cam-drin pobl hŷn fel 'cam-drin yr henoed', yn aml wedi arwain at fethiant ymarferwyr i gydnabod elfen droseddol y cam-drin a gyflawnir yn erbyn pobl hŷn. Er mwyn sicrhau bod pobl hŷn yn cael yr un mynediad at gyfiawnder troseddol â'r rheini mewn grwpiau oedran iau, rhaid i bob ymarferydd rheng flaen fod yn ymwybodol o ystyried ymddygiad sy'n rheoli ac yn gorfodi yn drosedd, ac o ofynion y canllawiau statudol newydd hyn.

[1] Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru. (2020). Gwasanaethau Cymorth i Bobl Hŷn sy'n dioddef Camdriniaeth yng Nghymru. Ar gael yn:
Support_Services_for_Older_People_Experiencing_Abuse_in_Wales.sflb.ashx (olderpeoplewales.com)

[2] Robinson, A.L. (2018). Practitioner (mis)understandings of coercive control in England and Wales. Criminology and Criminal Justice 18(1), tt. 29-49.

[4] Policastro, C. and Finn, M.A. 2017. Coercive control and physical violence in older adults: Dadansoddi gan ddefnyddio data o'r Arolwg Cenedlaethol o Gam-drin Pobl Hŷn. Journal of Interpersonal Violence 32(3), tt. 311 -330.
[5] Dobash, R. and Dobash, R. (2015). When Men Murder Women. New York: Oxford University Press.
[6] Weiner, C. (2017). Gweld beth sy'n 'anweladwy yng ngolwg pawb': Plismona rheolaeth drwy orfodaeth. The Howard Journal of Crime and Justice 56(4), tt. 500 – 515.
[7] Policastro, C. and Finn, M.A. 2021. Coercive control in intimate relationships: Differences across age and sex. Journal of Interpersonal Violence 36(3-2), tt. 1520 1543.
[8] Policastro, C. and Finn, M.A. 2021. Coercive control in intimate relationships: Differences across age and sex. Journal of Interpersonal Violence 36(3-2), tt. 1520 1543.

[9] Disgwylir y bydd yr Ymchwil i gam-drin domestig ymysg dynion hŷn yn cael ei chyhoeddi ym mis Gorffennaf 2022.
[10] Policastro C. and Finn, M.A. 2017. Coercive control and physical violence in older adults: Dadansoddi gan ddefnyddio data o'r Arolwg Cenedlaethol o Gam-drin Pobl Hŷn. Journal of Interpersonal Violence 32(3), tt. 311 -330.

[11] Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru. (2020). Gwasanaethau Cymorth i Bobl Hŷn sy'n dioddef Camdriniaeth yng Nghymru. Ar gael yn:
Support_Services_for_Older_People_Experiencing_Abuse_in_Wales.sflb.ashx (olderpeoplewales.com)

Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru

Mae Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru yn gwarchod ac yn hybu hawliau pobl hŷn ledled Cymru, gan graffu a dylanwadu ar amrywiaeth eang o bolisïau ac arferion er mwyn gwella eu bywydau. Drwy ei thîm gwaith achos, mae'n darparu cymorth a chefnogaeth yn uniongyrchol i bobl hŷn. Mae hi'n gweithio i rymuso pobl hŷn a sicrhau bod eu lleisiau'n cael eu clywed ac y gweithredir ar yr hyn y maen nhw'n ei ddweud. Mae rôl y Comisiynydd yn seiliedig ar gyfres o bwerau cyfreithiol unigryw i'w chefnogi i adolygu gwaith cyrff cyhoeddus a'u dal i gyfrif pan fo angen.

Mae'r Comisiynydd yn gweithredu i roi diwedd ar ragfarn a gwahaniaethu ar sail oedran; atal cam-drin pobl hŷn; a galluogi pawb i heneiddio'n dda.

Mae'r Comisiynydd am i Gymru fod y lle gorau yn y byd i heneiddio ynddo.

Sut i gysylltu â'r Comisiynydd:

Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru
Adeiladau Cambrian
Sgwâr Mount Stuart
Caerdydd
CF10 5FL

Ffôn: 03442 640 670

E-bost: ask@olderpeoplewales.com

Gwefan: www.olderpeoplewales.com/cy/Home.aspx

Twitter: @comisiwnphcymru